

Llen
Ghost
23/8 am 11:00 yb
Sedd 5G
ADMIT ONE

Pan fyddai pysgodyn aur blynyddol Huw John yn rhoi'r gorau i nofio mewn cylchoedd ac yn arnofio'n ddiog i frig y tanc, byddai ei dad yn ei dywys i siop gornel Mr Kowalski am *ice lolly* glas. Byddai'r tad henaidd bob tro'n galaru am y tair punt a phum deg ceiniog a roddai'n gyfnewid am y talpyn o rew, ond credai fod y *sugar high* yn rhoi mwy o gysur i'w fab dagreuol nag ymdroddion yr Ysgol Sul am yr hyn sydd y tu hwnt farwolaeth. Roedd yr iâ'n rhewi tafod y crwt ac yn dod â diwedd i'r ffrwd gwestiynau. Eisteddai'r ddau mewn tawelwch ar flanced sych o borfa farw, yn gwylio plant y parc antur yn taflu eu hunain oddi ar y siglen, heb ddysgu eto am eiddilwch eu cyrff. Gwrthodai Huw ymuno. Gwell oedd ganddo brofi mwynhad ail-law.

Tueddai i anwybyddu ei anifeiliaid anwes pan oeddent yn fyw ac, felly, roedd yn medru mwynhau'r lolipop heb deimlo'n euog am y foment ddarfodedig o lawenydd. Ond wedi i'r rhew doddi a gadael y ffon bren fel testament i'w fodolaeth, byddai'r bachgen yn ei holhti a'i drywanu i'r pridd gan ddefnyddio ei fodiau tew i greu carreg fedd. Safai felly hyd nes y dôi rhyw Samariad i godi'r darn o sbwriel a'i bostio drwy flwch y bin, lle câi ei gludo yn y pen draw i'r un *land fill* â'r pysgodyn y bu'n gofeb iddo.

Pan fu farw Molly fe ddychwelodd Huw i'r parc i ailadrodd y ddefod, er ei fod bellach yn ddeunaw oed a heb fod yn berchen ar bysgodyn aur ers dros ddegawd.

Roedd y lolipop yn blasu'n ffiaidd y bore hwnnw. Wrth iddo doddi ar ei dafod fe deimlai'r iâ'n ludog ac yn chwyslyd bron. Nid oedd y fath beth yn gweddu i geg oedolyn. Fe'i taflodd i'r llawr ar ei hanner i ddyfrio'r borfa felynwyrdd. Plygodd yn ei gwrcwd a gwylio'r gymysgedd yn araf feddalu, a'i gochni glas yn peintio'r morgrug, gan wneud iddynt ymddangos yn arallfydol, fel rhywbeth allan o *Aliens*.

Roedd fel pe bai'r byd a'i gi wedi dod i glywed y sibrydion am sut y daeth Molly i gwrdd â'i hangau. Yn ôl y chavs cegog y tu allan i siop Mr Kowalski, roedd ei hymennydd wedi ffrwydro ar hyd y trac cyn iddi hyd yn oed glywed y trê'n. Ymfalchiai un yn y ffaith fod ei dad-cu wedi dod o hyn i gwlffyn o gnawd mewn bwydwr adar yn ei ardd gefn, er nad oedd y lleill yn ei gredu. Doedd dim llawer ar ôl i'r heddlu ei ddarganfod, yn ôl rhai, na hanner digon i'r trefnwyr angladdau fedru llenwi'r arch. Roedd newyddiadurwyr y boreau coffi'n beio'r clustffonau *noise canceling* roedd hi'n ddigon dwl i'w gwisgo

wrth ddilyn llwybr tarw dros y rheilffordd. Doedd gan Huw ddim syniad sut roedd hi'n medru fforddio'r clustffonau yn y lle cyntaf, gan ei bod hi'n cwyno'n feunyddiol am ei chyflog fel usher yn y sinema. Doedd gan Molly ddim diddordeb yn ei swydd. Roedd hi'n ddiog, yn anweddus ac yn ddjarhebol o hwyr.

Byddai rheolwr cyfrifol wedi rhoi'r ffurflen P45 i weithiwr mor sâl â Molly ymhell cyn iddi gamu ar y cledrau rhydlyd, ac wedi'i herlid o'r gwaith a'i chadw led tref i ffwrdd o'r rheilffordd. Ond yn anffodus doedd rheolwr y Cinidome! ddim yn ddyn cyfrifol. Treuliai ei ddyddiau'n eistedd fel cwdyn o siopa trwm yn ei swyddfa gefn, yn pigo ar bopcorn wrth ailwyllo penodau omnibws o *Eastenders*. Ambell dro byddai'n cael galwad bryderus gan gwsmer nad oedd wedi archebu tocynnau, a byddai'n gorfod ailgylchu'r un ateb diog bob tro. Doedd y sinema wledig fyth yn llawn.

Unig atyniad y sinema oedd y ffaith ei bod yn dangos ffilmiau a ryddhawyd cyn i Huw gael ei eni. Ond prif gynulleidfa'r Cinidome! oedd pobl ganol oed a oedd yn dyheu am gael ail-fyw eu plentyndod drwy wyllo ffilmiau roeddynt wedi eu gweld ganwaith, gan ailadrodd digwyddiadau'r plot yn swnllyd â cheg yn llawn popcorn. Roedd estheteg yr hen adeilad wedi'i chadw felly'n fwriadol, yn ôl y bôs, a doedd ddim oll i'w wneud â phrinder cyllid.

Rhwng ffilmiau, byddai Huw'n aml yn ymweld â Molly ar y stondin docynnau. Byddai Molly yn cau'r llen ac yn sleifio Huw y tu ôl i'r cownter i gadw cwmni iddi dros ginio. Eisteddai'r ddau, eu hesgyrn cefn wedi'u sodro'n dynn ar welydd oer y stordy, yn rhannu cwdyn o Maltesers roedd hi wedi ei ddwyn o dan drwyn ei rheolwr. Roedd y drosedd yn gwneud iddynt flasu'n felysach na'r arfer, a byddai'r ddau'n tagu chwerthin wrth fandaleiddio'r posteri â Sharpie neu newid teitlau'r ffilmiau ar y bwrdd du. Doedd y bôs byth yn sylwi ar y patshyn môr-leidr dros lygad Harrison Ford nac ar gyrn dieflig Winona Ryder. Doedd e ddim wedi sylwi chwaith pan fu'r sinema'n dangos *Top Bum* i'r cyhoedd un prynhawn glawiog. Er bod Huw John yn aml yn cyfeirio ato ef ei hun fel *film buff*, y prif atyniad iddo bob tro oedd Molly.

Wedi iddo boeri chwys y lolipop o'i geg, dechreuodd gerdded ar hyd y palmant tuag at y sinema, ac yntau'n gwybod y byddai'r llen ar gau, a phob paced o Maltesers yn eu lle. Yn aml, byddai Molly'n honni nad oedd hi am ddychwelyd i'r gwaith y diwrnod wedyn. Rhegai'n ddyddiol y wisg wirion – gwasgod goch, crys gwyn a thei *dickie bow* – a byddai'n gwgu ar y dynion canol oed a archebai ddiodydd o silff waelod y ffrij, dim ond er mwyn ei gwyllo'n plygu drosodd. Cyn i'r ddamwain ddigwydd, byddai Huw weithiau'n gobeithio gwthio'r drysau gwydr, trwm yn agored ryw fore a gweld wyneb arall tu ôl i'r cownter, gan wybod fod Molly mewn lle gwell.

Y bore hwnnw, fodd bynnag, pan welodd y ferch a'i gwallt mewn *pony tail* blêr yn sefyll lle safai Molly gynt, nid oedd yn medru ymfalchïo yn ei bodolaeth. Am ennyd meddylïodd Huw mai Molly oedd hi. Gobeithiai mai ei feddwl gorfywiog a oedd wedi breuddwydio'r cyfan, neu fod y holl hanesion yn ddim mwy na chelwydd y tabloids. Ond gwyddai mai gobaith ffug oedd hynny, ac roedd yn rhy barod i wadu'r cyfan fel carcharor neu wleidydd.

Roedd hi'n hawdd adnabod Molly o bell ta beth, oherwydd dyna oedd ei phrif nod mewn bywyd. Goth oedd Molly, nid y math sy'n addoli Satan, ond y math sy'n hoffi codi ofn ar yr henoed wrth gerdded i lawr y stryd fawr. Boed wynt neu glaw, haul neu storm dywod, byddai wedi gwisgo yn yr un modd, mewn siaced ledr drwchus ddu wedi ei pharu â'i Docs o'r un lliw. Roedd hi'n lliwio ei gwallt yn aml. Y tro diwethaf i Huw ei gweld roedd hanner ei phen yn wyrdd llachar a'r hanner arall yn ddu bitsh. Pan fyddai Huw'n mentro dweud ei bod hi'n peri niwed i'w gwallt drwy wneud hynny, byddai Molly'n cyhoeddi'n gadarn ei bod hi'n hoffi'r syniad o fod yn benfoel ta beth. Chwarddai Huw yn nerfus er nad oedd hi'n chwarae'r ffwl.

Roedd ei rhieni wedi ei henwi ar ôl Molly Ringwald, yr actores Hollywood ddelfrydol a fyddai'n aml yn serennu yn yr hen ffilmiau ar sgrin y sinema. Menyw berffaith ym mhob ffordd. Ymateb arferol Molly i hyn oedd cicio'n erbyn y tresi a gwrthod y perffeithrwydd confensiynol a oedd yn ei orfodi arni. Er hyn, roedd hi eisiau dilyn ôl troed Ringwald a bod yn actores, ond roedd hi'n boenus o ymwybodol nad oedd y cyfryngis yn ei gweld hi fel wyneb derbyniol.

Gan fod ei rhieni'n ymweld â'r Cinidome! yn rheolaidd fe ofynasant i'r rheolwr a fyddai eu hunig ferch yn medru cael swydd yno, er mwyn dysgu am y diwydiant. Ond ni allai Molly ddysgu dim o'r tu ôl i'r stondin docynnau. Roedd hi'n swydd ddiflas, ac fel Molly, roedd Huw'n siŵr y byddai'r ferch newydd yn dod yn dra ymwybodol o hynny'n ddigon cyflym.

Gwylïodd Huw hi o bell, fel yr oedd yn arfer ei wneud yn y parc ers talwm. Diolchodd nad oedd ei dad yno'n ei holi'n ddiddiwedd pan na fyddai'n ymuno gyda'r plant eraill y tro hwn. Roedd y ferch yn edrych ar goll, ei chorff yn hollol lonydd ac wedi ei barlysu gan ofn, ac roedd ei llygaid yn tasgu, fel petai hi'n trio hela pryfyn. Pe bai Huw yn heliwr, dyma fyddai'r targed delfrydol. Delw ddiarwybod.

Syllodd y ferch ar y bwrdd y tu ôl iddi. Roedd y ffilm nesaf, *Ghost*, yn dechrau mewn chwarter awr. Gan fod Huw wedi ymgymryd â'r berernidod o'i dŷ cyngor yr holl ffordd draw i'r sinema, fe benderfynodd ei fod am wylïo'r ffilm. Eto i gyd, nid rhamant oedd y *genre* gorau i gymryd ei feddwl oddi ar Molly.

Roedd hi'n chwarter i un ar ddeg ar fore dydd Mawrth, ac roedd y cyntedd fel y bedd. Pan fyddai'r sinema'n wag byddai Molly'n ymuno â Huw yn y theatr er mwyn cadw cwmni iddo. Byddai Huw yn treulio'r oriau yn gwylio ei hwyneb, yn dod i ddeall y naratif drwy'i hystumiau, ei thrwyn yn crychu ar bob siom a'i cheg yn ebychu i gyfeilant pob sioc. Serennai ei llygaid ag eiddigedd gan ei bod yn gwybod na fyddai ei chyfle byth yn dod.

Gan nad oedd yna giw'r bore hwnnw, fe gerddodd Huw yn syth at y cownter. Wrth agosáu, fe fedrai weld y syfrdandod ar wyneb y ferch. Roedd hi'n amlwg mai Huw oedd ei chwsmer cyntaf.

"B-Bo-Bore da!"

Adlamodd y geiriau dros ei gwefusau, fel petaent yn rhy awchus i aros ar flaen ei thafod. Ni chydabyddodd Huw'r geiriau hyd nes iddo gyflawni'r llond llaw o gamau a oedd ganddo'n weddill. Wrth ddod i bwysu ei fodiau ar y cownter o'i flaen fe sylwodd Huw ar ei thaldra. Doedd Huw ddim yn gawr, ond cafodd ei siomi wrth iddo ddod wyneb yn wyneb â'i boch. Roedd y foch honno'n eiddo i wyneb main, un â thrwyn, llygaid a cheg o anian llyfrgellydd. Doedd Molly ddim yn dal, na chwaith yn ymddangos fel llyfrgellydd da.

Penderfynodd Huw syllu i lawr ar y cafn o bopcorn o'i flaen er mwyn osgoi lletchwithdod y ffaith ei fod yn fyrrach na'r ferch. Ond wrth i'w olwg ddisgyn fe sylwodd ar fathodyn y ferch yn adlewyrchu golau euraidd yr hen fylbiau halogen. Oedodd wrth ddarllen y geiriau cyfarwydd. Doedd prin yn medru credu'r peth. Molly? M-O-L-L-Y? Molly!

"Molly?"

Dihangodd llif ei ymwybod drwy gell ei geg. Synnodd hyn Huw a'r ferch fel ei gilydd. Plygodd ei phengliniau er mwyn medru cael golwg gwell ar y gwallgofddyn o'i flaen. Gwridodd y bachgen wrth weld ei wyneb yn ymddangos ger ei haeliau.

"Ow *shit*, na sori! Yrm... Gwisg rhywun arall yw hwn... Wel... Un fi yw e nawr *I guess*."

Gwenodd y ferch wên denau. Parhaodd Huw i edrych i ddyfnderoedd y popcorn, wedi'i barlysu gan hiraeth.

"Mae'n *dead* so... Enw go iawn fi yw Claire."

Lledodd gwên y ferch. Ni wyddai Huw sut i ymateb. Fe ysgwydodd ei ben gan nad oedd yn gwybod beth arall i'w wneud. Roedd ei feddwl wedi rhewi fel petai wedi dechrau cnoi ar ice lolly coch. Sylwedolodd y ferch ei chamgymeriad a diflannodd ei dannedd.

“Sori do’n i ddim yn gwybod bo’ ti’n *mates* gyda hi. O’n i’n *mates* gyda hi ‘fyd... Dyna shwt ges i’r *job* twel. Sort of fel *giff* o rhieni hi ar ôl i hi torri *headphones* fi.”

Nid oedd Huw erioed wedi clywed Molly’n sôn am Claire felly roedd hi’n amlwg iddo nad oeddent mor agos â hynny, ddim yn ddigon agos i rannu clustffonau ta beth. Ond doedd gan Huw ddim o’r ceilliau i ddadlau gyda’r ferch. Nid oedd eisiau esbonio ei gyfeillgarwch â Molly, gan ei fod yn anghysurus yn esbonio iddi ei fod wedi dwlu ar ei ffrind marw. Gobeithiai y byddai’r teimlad yn diflannu wedi iddi farw, ond er nad oedd hi’n bodoli bellach, roedd Huw yn dal i garu ei atgofion ohoni.

“Doedden ni ddim mor agos â hynny...”

Doedd hi ddim yn briodol i Huw gychwyn ar fonolog emosiynol am gariad. Gwyddai y byddai’n orddramataidd iddo gyfaddef mai’r sinema oedd yr unig ddolen rhyngddo fe a Molly bellach. Ond pe bai’n bodoli ym myd ffilm, a’r math o ffilmiau y byddai Molly Ringwald yn serennu ynddynt, yna byddai wedi cyfaddef nad oedd yr un machlud haul tanllyd na’r un wawr odidog wedi golygu dim iddo ers iddi ffarwelio ag e. Gwrthodai gyfaddef i’r dieithryn o’i flaen ei fod yn fythol sâl wrth wybod ei fod yn bodoli mewn byd lle nad oedd Molly mwyach.

Roedd anadlu’n codi cyfog arno. Er ei fod wedi ei gladdu ei hun mewn ffilmiau a llyfrau nid oedd yn medru ymgolli mewn dim. Roedd hyd yn oed wedi rhoi’r gorau i freuddwydio erbyn hyn. Treuliai bob nos yn ailchwarae atgofion ar daflunydd ei gof.

Fe dalodd am ei docyn a griddfan wyllo’r ffilm.

*

Casablanca
26/8 am 9:30 yb
Sedd 16Q
ADMIT ONE

Ar ddydd Gwener olaf pob mis yn unig yr oedd y sinema’n llawn. Tyrrai henoed lled-ddiwylliannol y dref yno fesul cwpl erbyn naw y bore, er mwyn gwyllo hen ffilm ddu a gwyn am ryw ryfel roedd eu rhieni wedi byw drwyddi.

Doedd gan y dorf ddim llawer o ddiddordeb yn y ffilmiau fodd bynnag. Y gwin, y caws a'r cymdeithasu a oedd yn mynd a'u bryd hwy. Fel pob mis arall, roedd yr hen wragedd i gyd yn gwisgo'r un gardigan lliw samwn o M&S ac yn cecran ymysg ei gilydd ynghylch pwy oedd y gyntaf i'r felin. A'r unig reswm roedd y gwŷr wedi goddef gadael eu byngalos oedd er mwyn medru adrodd eu straeon clwb golff i rywun nad oedd wedi eu clywed ganwaith yn barod.

Er na fedrai ei dad fynychu'r digwyddiad bellach roedd Huw yn parhau i ddangos wyneb. Er bod y wyneb hwnnw yn syfrdanol o ifanc i gymharu â phob gwedd rychiog arall, roedd y cwmni'n teimlo'n gyfarwydd. Ac er nad oedd yn farn boblogaidd, roedd yn hoff o'r ffilmiau propaganda, ystrydebol. Nid oherwydd eu bod yn cael eu cyfrif fel clasuron, nac oherwydd ei fod yn ceisio ymddangos fel hipster, ond oherwydd ei fod yn hoff o'u symlrwydd. Roedd popeth yn ymddangos yn haws bryd hynny, pan oedd popeth yn ddu a gwyn.

Ond nid i wyllo Casablanca yr aeth i'r sinema'r diwrnod hwnnw. Fe wylodd Huw o bell, fel spei yn un o'r ffilmiau rhyfel, wrth i Claire weini gwin gwyn, blwydd oed a chaws *brie* caled a oedd yn "*locally sourced*" o siop Mr Kowalski . Roedd yn casáu ei hun am feiddio â chofio ei henw twp, ond roedd yn ei chasáu hi'n fwy wedi iddo sylweddoli ei bod yn parhau i wisgo bathodyn enw Molly. Erbyn hyn roedd hi hyd yn oed wedi dwyn ei steil gwallt, a'i gwallt brown bellach wedi ei gyfnewid am gyfuniad o wyrdd a du.

Ers gadael y Cinidome! dridiau'n ôl roedd Huw wedi dod i deimlo emosiwn gwahanol y tu hwnt i'r gwacter arferol. Ond yn anffodus, dicter oedd yr emosiwn hwnnw. Roedd yn methu deall sut y medrai Claire oddef amharu ar ei hatgof o Molly, yn ogystal ag atgof Huw ohoni, drwy ddwyn ei swydd a'i henw. Doedd ganddi ddim hawl i fod y tu ôl i'r llen tra oedd Huw yn gorfod parhau i fod ar yr ochr arall. Roedd wedi penderfynu fod angen gwneud safiad, y math o safiad nad oedd modd ei weld heblaw mewn ffilmiau.

Dyma oedd ei foment William Wallace, er y gwyddai y byddai Molly'n casáu'r gymhariaeth. Hi dorrodd ei DVD *Braveheart* yn ei hanner, yr un a fenthycodd iddi pan hedfanodd ei rhieni i Ibiza, a'i gadael yn y tŷ ar ei phen ei hun. Doedd y DVD ddim yn llawer o gysur fodd bynnag, gan iddo ei atgoffa cymaint yr oedd hi'n casáu Mel Gibson. Fe addawodd hi brynu un newydd i Huw ond doedd neb yn y dref yn gwerthu DVDs rhagor, dim hyd yn oed Mr Kowalski.

Roedd ar ei draed erbyn saith y bore. Ymolchodd yn dda, golchodd ei ddannedd yn drwyadl ac eilliodd yn lân. Fe wnaeth hyd yn oed seimio ei wallt fel yr oedd yn arfer ei wneud wedi i Molly gyfaddef, yn groes i'r graen, mai Zack Efron oedd ei *celebrity crush*. Meiddiodd syllu yn y drych, a doedd yr adlewyrchiad ddim mor arswydus â'r disgwyl.

Cododd ei dad o'r ystafell wely lawr grisiau'n gynt na'r arfer. Fe ddaeth dros y dryswch hefyd yn gynt na'r disgwyl. Llwyddodd Huw i'w ddarbwylllo i eistedd i lawr o flaen y *box set* Indiana Jones cyn chwarter wedi wyth, a thyngodd lw ar fywyd ei fam y byddai'n dychwelyd cyn i'r bedwaredd ffilm lygru ei lygaid dall. Byddai'r tair ffilm yn ei gadw'n brysur am chwe awr a mwy, a byddai hynny'n rhoi hen ddigon o amser i Huw newid o'i byjamas a mynd i'r Cinidome! er mwyn rhoi Claire yn ei lle a gwyllo *Casablanca*.

Erbyn chwarter wedi naw roedd llen y swyddfa docynnau ar agor a gwên fain Claire yn swyno'r sgerbydau byw. Wrth bydru yn y ciw'n gwrandio ar bob mam-gu ymffrostgar yn dweud wrtho "*Mae'n siŵr bo' ti'n 'nabod yr ŵyr*", fe lowciodd Huw dri darn o'r *brie* drewllyd er mwyn ei wneud yn brofiad gwaeth i Claire pan fyddai'n agor ei geg.

Ceisiodd lyncu cwlffyn trwchus o boer a oedd wedi ymgasglu yn ei geg. Fe fethodd, ac ni allai wneud dim ond gwthio'r gwlypter i gopa ei wddf. Sychodd chwys ei ddwylo llaith yn erbyn blaen ei jîns ond fe stopiodd wrth iddo sylwi y gallai'r wlyptra gael ei gamgymryd am ddamwain tŷ bach. Wrth iddo gyrraedd blaen y ciw fe gododd ei ben ag arddeliad er mwyn wynebu'r gawres. Ond doedd hi ddim wedi sylwi dim arno gan ei bod ar ei gliniau yn ail-stocio silff waelod y frij.

Ysai i bwysio ymlaen a chael cipolwg dros y cownter ar yr hyn oedd y tu ôl i'r llen. Ym mhob twll a chornel o'r stordy gefn fe guddiai atgof arall o Molly. Ond nid oedd eisiau i'r fam-gu y tu ôl iddo gamgymryd ei fwriad.

Erbyn i Claire godi ar ei thraed roedd y cwlffyn o boer wedi dychwelyd i'w geg. Gwenodd y ferch arno wrth ddisgwyl ei archeb, ond ni lwyddodd Huw ddweud dim, gan fod ei dafod yn rhy brysur yn boddi mewn poer.

"Siapa dy stwmps di 'nei di?"

Doedd Huw ddim yn disgwyl clywed sylw mor ffyrnig gan lais mor sigledig. Chwarddodd Claire i gyfeiliant hecl yr hen ddynes. Trodd i weld ei hwyneb crebachlyd fel pen-glin eliffant yn siglo o ochr i ochr yn siomedig. Ufuddhaodd Huw. Doedd ganddi ddim llawer o amser yn weddill ar dir y byw, wedi'r cyfan ac, felly, fe benderfynodd beidio â'i hamddifadu o'r cyfle i dreulio ei horiau olaf yn gwyllo ffilm weddol chwaethus. Roedd Molly yn honni fod ysbrydion yn byw yn yr hen sinema, a byddai gan yr hen fenyw

ddigonedd o gwmni pe bai'n dewis peidio â chodi o'i sedd anghyfforddus.

Ond roedd cyfle Huw wedi diflannu, y geiriau wedi dianc o'i feddwl, a chasineb crasboeth y bore wedi mudferwi'n ddirmyg plentynaid.

Ategodd Huw wên wydn y ferch. Taflodd ei holl fân geiniogau ar y cownter o'i blaen er mwyn sbeitio. Roedd yn brin o bum deg ceiniog, ond ni sylweddolodd hi. Bwydodd Huw stwmp y ticed i grombil ei waled gyda'r gweddill. Roedd yr ochrau'n rhwygo oherwydd trwch ei gynnwys, ond roedd ysgafnder y waled yn amlygu'r ffaith nad arian oedd y rheswm am hynny.

Ddwyawr yn ddiweddarach fe enciliodd Huw o'r sinema wedi egnïo'n hyderus gan ysbryd Dunkirk. Ond roedd y llen wedi cau ar ei gyfle i frwydro â'r ferch, a'r poteli gwag o win gwyn y bore'n pwyso'n flinedig ar y bin y tu allan.

*

Indiana Jones and the Kingdom of the Crystal Skull
24/12 am 9:00 yh
Soffa Adref
ADMIT ONE

Penderfynodd Huw fisoedd yn ôl nad oedd am fynd ar gyfyl y Cinidome! ar unrhyw gyfri, fyth eto. Roedd wedi dioddef digon ac roedd dychwelyd i'r lle fel pigo hen grachen. Wrth gadw pellter o darddle ei holl atgofion am Molly, gobeithiai y byddai'n medru anghofio am ei hiraeth. Os oedd gweddill y byd yn medru anwybyddu'r ffaith ei bod wedi marw, pam na fedrai ef wneud yr un peth?

Gwyddai ei fod wedi esgeuluso ei dad ers iddo ddechrau dotio ar Molly naw mis yn ôl. Ond roedd Huw'n ei chael hi'n anodd adfer y sefyllfa. Syrffedodd ar y box set Indiana Jones ar ôl deuddydd, er ei fod yn parhau i chwerthin yn y manau cywir ac yn ebychu, ac er ei fod yn gwybod nad oedd yr arwr byth mewn unrhyw berygl go iawn. Dyma oedd unig gysur ei dad bellach. Roedd y llawenydd yn boenus o amlwg ar ei wyneb rhychiog wrth iddo brofi'r stori fel petai am y tro cyntaf yn feunyddiol.

Teimlai Huw ei fod yn twyllo wrth ymgysylltu â'i dad dros rywbeth roedd yn gwybod ei fod yn ei garu, er nad oedd ei dad yn ymwybodol o hynny bob tro. Ond y noson honno roedd wedi gwneud sylw ynghylch prydferthwch y goeden Nadolig ddwywaith eisoes heb dderbyn yr un ymateb, a bu bron iddo ymrwymo am y trydydd tro i gynnal sgwrs unochrog am y straeon y tu ôl i'r addurniadau. Yn lle hynny, fe drodd y chwaraewr DVD ymlaen a chwifio'r faner wen.

Filltiroedd o'r sinema, roedd Hollywood yn benderfynol o'i atgoffa o'i alar wrth iddo wyllo, eto fyth, yr arwr dewr yn cusanu'i gariad prydferth. Penderfynodd y byddai llusgo ei feddwl trwm am dro yn gwneud gwell defnydd o'i amser na suddo i grombil y sofffa. Hanner ffordd drwy ei drydedd lap o amgylch y dref fe sylweddolodd fod cerdded yn ei ddiflasu'n fwy na gwneud dim byd. Eisteddodd ar y fainc gyferbyn â siop Mr Kowalski er mwyn cael ei wynt ato. Nid oedd wedi mentro gwneud unrhyw fath o ymarfer corff ers iddo adael yr ysgol yn un ar bymtheg. Ystyriodd ei opsiynau. Roedd naill ai'n mynd i barhau i gerdded nes i'w fraster doddi a'i fân gyhyrau losgi'n ulw a gweddillion ei gorff ddiflannu i'r gwynt, neu roedd am fwrw am adref.

Roedd ei dad yn cysgu'n braf ar y sofffa. Doedd gan Huw ddim egni i halio ei goesau trwm i fyny'r grisiau ac, felly, fe swatiodd wrth ei ymyl. Roedd y ffaith fod *Indiana Jones and the Kingdom of the Crystal Skull* yn chwarae ar y bocs yn dangos fod yr hen ddyn wedi bod yn cysgu ers tro. Wrth ddiogi, fe wylodd Huw'r ffilm yn anghysegru gwaddol hoff gymeriad yr hen ddyn.

Câi ei atgoffa o Claire. Gwingodd wrth ddychmygu ei gweld y tu ôl i len y stondin docynnau. Roedd yn ei gasáu ei hun am ganiatáu iddi ddod yn geidwad i'w atgofion am Molly. Ond nid oedd yn ei medru anghofio, ac nid oedd eisiau ei hanghofio ddim mwy.

*

**Hanner Olaf Taxi Driver
2/1 am 6:57 yh
'Projection Room'
ADMIT TWO**

"Dydi cariad ddim wir yn bodoli, ma' fe'n *construct* mae Hollywood wedi creu er mwyn gwerthu tocynnau..."

Nid dyma oedd yr ymateb delfrydol i Huw wedi iddo gyfaddef i Molly ei fod yn ei charu. Roedd clywed y ferch yn diystyru'r ffaith fod y fath deimlad yn bod yn waeth na'r "Na" confensiynol. Ond gwyddai Huw nad oedd Molly yn un am gonfensiwn. Hyd yn oed am Goth, roedd ei geiriau hi'n dywyll. Ond ni wyddai Huw'n sicr mai dyna oedd ei geiriau gwreiddiol bellach. Roedd ei atgofion o'r diwrnod, fel ei holl atgofion amdani, yn prysur ddirywio.

"Wyt ti acshyli'n 'nabod rhywun sy mewn cariad?"

Gobeithiai Huw fod ei rieni wedi profi cariad unwaith, er y gwyddai nad oedd yn rhan o'u bywydau ar y foment honno. Roedd yn parhau i ddweud wrth ei dad ei fod yn ei garu bob nos wrth ei gario i'w wely, ond roedd

roedd yn ansicr a oedd wir yn credu'r geiriau. Adroddai'r geiriau o arfer bellach, am ei fod yn credu mai dyna oedd y peth cywir i'w ddweud. Doedd ei fam, yn amlwg, ddim yn medru caru ei dad bellach ac, felly, roedd yn rhaid i rywun.

Roedd y sgwrs olaf honno gyda Molly, y tu ôl i len felfed ffug y stondin docynnau, yn atgof poenus i Huw am amrywiaeth o resymau. Ac am y rheswm hwnnw, roedd ei awydd i ailymweld â'r fan yn peri gofid iddo.

Y bore hwnnw, fel ddychwelodd i'r sinema, er gwaethaf ei nerfau brau. Ofnai'r hyn roedd Claire yn ei feddwl ohono. Er nad oedd hi'n ei adnabod, gwyddai nad oedd yn gwbl anhysbys iddi. Byddai Molly'n dueddol o ailfedyddio ei chwsmeriaid â llysenwau dirmygus a dynnai ar eu nodweddion gwaethaf, fel y fadam dew, *demanding* a alwai'n Grace Belly. Ond weithiau byddai'r llysenwau'n llai cynnil, fel y hen ddyn a fyddai o hyd yn ceisio cyffwrdd â'i gwallt, Pervy McWeirddo. Roedd Huw yn hynod o ymwybodol o'r llysenwau lu a oedd yn bodoli eisoes ar gyfer *nerd* bach, trwchus fel ef. Bobba Fat oedd ffefryn Molly cyn i'r ddau ddod yn ffrindiau, ond tybiai na fyddai Claire yn ddigon creadigol na chreulon i feddwl am un cystal â hwnnw.

Roedd Huw wedi methu hanner awr cyntaf *Taxi Driver*, ond nid i weld y ffilm y daethai i'r sinema. Yn ôl y disgwyl, roedd y llen wedi ei thynnu i lawr dros flaen y stondin docynnau. Cnociodd yn ysgafn ar sgrin dryloyw'r cafn popcorn. Am rai eiliadau fe arhosodd yn ei unfan, er hanner dymuno na fyddai'r llen fyth yn agor. Ond fe ymestynnodd y mân eiliadau yn hirach ac yn hirach hyd dragwyddoldeb. Ystyriodd daro ar y persbecs rhad unwaith yn rhagor, ond nid oedd am achosi ffwdan. Roedd Huw yn rhy barod i rhoi'r ffidil yn y to. Roedd ar fin ymadael pan welodd un llygad colledig yn syllu allan drwy ribyn y llen. Diflannodd y llygad yn sydyn y tu ôl i'r felfed plastigaidd.

"Beth ti moyn?" "Oes amser gyda ti i siarad?... Am Molly?"

Datgelodd Claire ei hwyneb gwelw wedi iddi glywed enw ei hen gyfaill. Gwyddai Huw ei bod hi'n annhebygol ei bod wedi clywed yr enw ar lafar ers peth amser, gan mae hwn oedd y tro cyntaf i Huw yntau ei glywed ers tri mis.

"Ga'i ddod..."

Pwyntiodd Huw at y gwagle y tu ôl i'r llen. Gwgodd y ferch fel pe bai'n ansicr ynghylch derbyn cyfeillgarwch sydyn gan rywun nad oedd wedi yngan mwy na brawddeg wrthi erioed. Roedd hi'n amlwg ei bod yn amddiffynnol o'i llecyn.

"

“Fi ddim am *risko* job fi dros rhywun sai’n ‘nabod.”

Gan fod Claire wedi llenwi ei feddyliau dros y wythnosau diwethaf roedd Huw yn teimlo fel petai wedi ei hadnabod hi erioed, er na wyddai ddim amdani heblaw ei bod yn ffrind i Molly. A doedd dim modd iddo wirio a oedd hynny’n wir hyd yn oed. Roedd hi’n amlwg nad oedd ef wedi bod ar feddwl Claire fodd bynnag.

“Roedd Molly’n arfer gadael fi mewn i gael cinio gyda hi.”

Tynnodd Claire y llen yn ôl ag ochenaid, gan wahodd Huw’n oeraidd i’r ystafell gefn. Eisteddodd Huw fel y buasai’n gwneud yng nghwmni Molly, ei gefn yn pwysu’n erbyn wal y stordy a’i lygaid ar Claire wrth iddi fwyta’i Dairylea Dunkers ar gadair waith gyferbyn ag ef. Cnodd yn swllyd er mwyn lleddfu ar y tawelwch lletchwith. Roedd gweddill ei chinio eisoes yn treulio trwyddi ond chwyddai’r pecyn bwyd â gweddillion y bwydach roedd ei rhieni wedi pacio ar ei chyfer.

Wrth baratoi i dorri’r tawelwch llethol fe besychodd Huw er mwyn twymo ei lais gan nad oedd wedi ei ddefnyddio ers peth amser erbyn hyn.

“Fi’n credu mae dim ond ti a fi sy’n dal i gofio am ei bodolaeth hi ti’n gwbod.”

“*I don’t know*, fi’n credu bydd hi’n leiynd rownd ffordd ma’ am byth bythoedd. Does neb am anghofio’r ferch ga’th ei splatro gan drên.”
“Ie ond ni’n dau yn cofio Molly am Molly ac nid just person wnaeth farw mewn modd go frawychus.”

Gwyddai Huw ei fod eisiau credu’r geiriau, ond mewn gwirionedd nid oedd yn medru cofio manylion ei hwyneb bellach. Roedd ansawdd ei atgofion yn gwaethygu, fel petai’n llungopi’o llungopi o lungopi. Ofnai na fyddai’n medru adnabod y cysgod aneglur yn fuan. Gwrthodai droi Molly’n gysyniad yn ei ben na fyddai’n gwneud dim ond ennyn euogrwydd.

“Ie ond sai’n meddwl o’n i’n ‘nabod yr un Molly â ti.”

Sibrydodd Claire y geiriau fel pe bai hi’n siarad â hi ei hun. Ni wyddai Huw sut i ymateb, felly ymgartrefodd yn y tawelwch. Cafodd ei hun yn llygadrythu ar ei gwallt. Roedd y gwyrdd llachar wedi pylu’n lliw mwsog, a’r gwreiddiau brown wedi dechrau diarddel y du annaturiol. Edrychai Claire ar goll, ac roedd Huw yn medru cydymdeimlo. Nid oedd wedi ystyried erioed fod marwolaeth Molly wedi effeithio ar bobl eraill.

“Gai ddangos rhywbeth iti?”

Ni fedrai Huw feddwl am reswm i wrthod. Dilynodd y ferch drwy ddrws yng nghefn y stordy. Roedd wedi sylwi ar y drws o'r blaen ond nid oedd erioed wedi meddwl i ble roedd yn arwain, ac nid oedd erioed wedi cael rheswm i adael yr ystafell honno. Ar ochr draw'r drws, daeth Huw i gwrdd â grisiau dyran wedi'u peintio'n ddu llychlyd. Rhedodd Claire i fyny ac erbyn i Huw gyrraedd y copa roedd hi eisoes wedi agor y drws i ddatgelu'r hyn yr oedd hi eisiau dangos iddo.

Roedd ystafell y taflunydd yn llai na'r disgwyl. Yn debyg i'r grisiau, roedd yr ystafell wedi'i pheintio â'r un paent du llychlyd. Dringai gwifrau'n wyllt fel iorwg i fyny'r welydd a chymysgu gyda'r gwe pry cop trwchus ar y nenfwd. Er mai hon oedd ystafell bwysicaf y Cinidome!, câi ei thrin fel sgip gan y rheolwr. Wedi'u pentyrru ger y taflunydd roedd llond llaw o gadeiriau sinema toredig, ambell ddesg a *cut out* cardfwrdd *life size* o Marty McFly.

Cafodd Huw ei synnu pa mor fodern oedd y taflunydd.

“Amazing!”

Ni fedrai ddeall pam nad oedd Molly wedi datgelu'r ystafell ddirgel hon iddo. Roedd Huw yn siŵr y gwyddai hi pa mor rhyfeddol y buasai'n gweld y lle. Pam yn y byd y cadwodd hi'r lle'n gyfrinach rhagddo?

Rhedodd at y ffenestr fechan ger barel y taflunydd a dechrau gwylio hanner olaf *Taxi Driver* o'i sedd ddyrchafedig. Gwasgodd ei lygaid yn dynn at wydr tenau'r ffenestr er mwyn medru prosesu pob manylyn a chreu atgof newydd. Medrai synhwyro presenoldeb Claire wrth ei ymyl. Nid oedd digon o le i ddau ben wasgu i mewn i'r twll ac, felly, fe fagiodd Huw yn ei ôl er mwyn iddi fedru gweld y sgrin fawr. Ond ni symudodd y ferch. Roedd hi'n dal i wyllo wyneb Huw, fel y byddai Huw arfer gwneud i Molly fisoedd maith yn ôl.

“Do'dd hi ddim mor berffaith â be' ti'n cofio.”

“Mae perffaith yn air-”

“O'dd hi'n hunanol, yn jealous a'r rhan fwyaf o'r amser o'dd hi'n miserable.”

“Doedd hi byth yn drist gyda fi...”

“Wel fi mor falch drosto chi.”

Trodd Huw i wynebu Claire. Roeddent mor agos nes bod trwynau'r ddau bron yn cyffwrdd. Medrai Huw aroglu'r caws Dairy Lea ar ei gwefusau. Goleuai'r sgrin hanner eu hwynebau, gan guddio eu diffygion yn y cysgodion. Disgleiriai gwyrddni ei gwallt yn y pelydrau synthetig. Gallai Huw daeru mai Molly oedd hi.

Plannodd Huw gusan ar foch Claire. Teimlai fel arwr ei stori, yn cael y cyfle i ennill ei ferch yn ôl wedi'r holl ddioddef. Ond sylweddolodd, wrth iddo ddod â'r sugno i stop, ei fod wedi creu atgof poenus arall y tu ôl i len y stondin docynnau.

*

Ghostbusters II
3/1 am 9:00 yb
Sedd 12A
ADMIT ONE

Dyma oedd y tro cyntaf i Huw ymweld â'r Cinidome! deuddydd yn olynol ers marwolaeth Molly.

Roedd Huw yn parhau'n nerfus wrth iddo droedio drwy'r drysau gwydr, ond am reswm newydd y tro hwn. Wedi iddo blannu'r gusan diofyn ar foch Claire gwyddai fod y niwed i'w cyfeillgarwch yn barhaol. Ymddiheuriodd yn syth ond fe ddihangodd cyn iddo weld os byddai'n maddau iddo. Gwyddai nad oedd modd arbed y sefyllfa.

Er bod llen y stondin docynnau ar led, nid oedd Claire tu ôl i'r cownter. Pe bai Huw yn ei esgidiau hi byddai ef wedi ceisio cuddio rhagddo ef ei hun hefyd. Ond wrth iddo agosai fe sylweddolodd ar gorff gwelw y rheolwr yn ceisio cuddio rhag belydrau isel haul y borau yng nghysgod y stondin.

Er ei fod yn ei dridegau canol roedd y mwstach tila yn gwneud iddo edrych llawer yn iau. Oherwydd ei groen gwelw, a'r bwcedaid dyddiol o bopcorn melys, roedd y plorod gwaedgoch ar ei wyneb yn annaturiol o eglur. Nid oedd yn edrych yn ddieithr y tu ôl i'r llen.

“Ydy Claire yma?”

Er ei bellter o'r cownter fe adlamodd y geiriau'n awchus o'i geg. Cododd y rheolwr ei ben o'r bennod o Eastenders a oedd yn chwarae'n swnllyd ar ei gliniadur, ond roedd Huw wedi dod i arfer ag anwybyddu'r “Ge' awt ma pub!” cyson ac acen ystradebol Phil Mitchell.

“Pwy?”

“Claire?”

Roedd y benbleth yn amlwg ar wyneb y rheolwr. Crychai ei wyneb cymaint nes i’w fwstosh ymddangos fel blew trwyn gwyllt. Ond nid oedd Huw yn deall sut na fyddai’r rheolwr yn medru cofio enw ei weithiwr, er ei ymdrech ddiffygiol. Efallai nad oedd Claire wedi gwneud cymaint o argraff ar y rheolwr a’r hyn yr oedd hi wedi ei wneud ar Huw.

“Dude sa’n ’nabod neb o’r enw Claire. Ond os ti’n gweld Molly gwed wrthi bod hi’n *sacked*.”

Doedd Huw’n methu â deall sut oedd modd diswyddo’r meirw, na chwaith sut y bysai’n medru cyfleu’r wybodaeth i enaid Molly. Trwy weddio efallai? Na, doedd Huw erioed wedi bod yn un am grefydd. Edrychodd eto ar y rheolwr i weld os mae jôc sâl oedd y cyfan. Ond roedd ei wyneb chwyslyd yn diferu â difrifoldeb.

“Fe wnaeth Molly farw chwe mis yn ôl...”

Ni ddangosodd y rheolwr fymryn o sioc, siom na galar. Dim ond llaesu ei ysgwyddau ac ochneidio ...

“Ti ‘ishe job hi?”

Diwrnod ynghynt ni fyddai Huw wedi gwrthod cynnig o’r fath. Ei unig gymhelliant mewn bywyd oedd i dreulio mwy o amser y tu hwnt i’r llen, yn boddi mewn atgofion. Sylweddolai ei bod hi’n hen bryd iddo godi ei ben yn uwch na’r tonnau o hiraeth, a dysgu arnofio.

Gwrthododd.

Twm Ebbsworth